**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1034
Ein cyf/Our ref DET/02480/20

Janet Finch-Saunders MS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

5 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Mae Llywodraeth Cymru yn deall rhwystredigaeth y sector diwylliant ond mae angen i ni sicrhau y gall sefydliadau ac unigolion ddychwelyd i weithgareddau mewn modd diogel.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn gynharach yr haf hwn ganllawiau ar sut y gallai lleoliadau a chyrchfannau diwylliant a threftadaeth ddychwelyd yn raddol. Fel rhan o'r gwaith hwnnw gwnaethom ofyn i Cyngor Celfyddydau Cymru gydweithio â'n sectorau diwylliannol er mwyn datblygu canllawiau ychwanegol ynghylch ymarferion, perfformiadau a chyfranogiad. Mae'r gwaith hwnnw bellach wedi'i gwblhau ac mae'r canllawiau wedi'u cyhoeddi.

Nid ydym, fodd bynnag, mewn sefyllfa eto lle y gallwn ailagor lleoliadau fel neuaddau cyngerdd neu theatrau yn sgil y peryglon a fyddai ynghlwm wrth wneud hynny a'r anawsterau a fyddai'n deillio o reoli torfeydd a chofnodi presenoldeb. Mae grŵp rhanddeiliaid yn cynnwys sefydliadau o faes chwaraeon, y celfyddydau a digwyddiadau eraill wedi'i gynnull a bydd y grŵp hwn yn parhau i gynghori ar y modd y gall gweithgareddau o'r fath ailddechrau'n ddiogel ac yn raddol – ond dim ond pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny. Ni allwn bennu dyddiad ar gyfer hyn eto ond rydym yn parhau i fonitro'r wyddoniaeth a'r tueddiadau. Mae'r feirws ar led o hyd ac mae'n rhaid i ni barhau i gymryd y camau priodol er mwyn diogelu Cymru.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.